

# Calon dangnefeddus

*“Ac meddai ef wrth y wraig, ‘Y mae dy ffydd wedi dy achub di; dos mewn tangnefedd’”. (adn. 50)*

## Beth am ddarlennu Luc 7:36–50 ac yna myfyrio

Fe orffennom ni ddoe gyda’r syniad y gallwn brofi’r tangnefedd sydd o Dduw unwaith y bydd gennym dangnefedd â Duw. Dyma beth ddigwyddodd i’r wraig yn y stori yn Luc. Daeth o hyd i dangnefedd i’w henaid gofidus – enaid wedi’i rwygo’n ddarnau gan euogrwydd a chywilydd. Mae’n anodd dweud a oedd y wraig wedi dod o hyd i iachawdwriaeth cyn golchi traed Iesu neu wrth gyflawni’r weithred; mae’n fwy na thebyg mai cyn hynny. “Dos mewn tangnefedd,” oedd gair olaf Iesu wrth y wraig hon “oedd yn bechadures”. (adn. 37)

Wedi’i denu at Iesu, mae’r wraig hon, oedd yn arfer bod yn butain, yn dod i dywallt ei mawl arno am y gras trawsnewidiol mae hi wedi’i flasu. Mae Simon y Pharisead yn fwy crintachlyd yn ei werthfawrogiad o Iesu. Ond, oherwydd bod Iesu wedi maddau llawer iddi, mae hi’n caru llawer. Mae’n sicr bod yr ennaint drud yn cael ei ddefnyddio fel un o ‘gyfrinachau’ ei chreffft. Efallai mai hwn oedd yr unig beth oedd ar ôl o’i bywyd pechadurus. Pa un bynnag a oedd hynny’n wir ai peidio, mae hi’n ei wastraffu mewn teyrnged fentrus i ras Iesu.

Roedd y tangnefedd y daeth hi o hyd iddo yn dawelwch pechadur wedi’i achub a’i dderbyn gan ras tyner Crist. Ei thangnefedd oedd y gorfoledd o wybod ei bod yn cael ei derbyn gan Dduw cariad a thrugaredd diamod. Ac Iesu gymerodd y cam cyntaf a hanfodol i’w hadfer i’w llawn statws yng nghymuned Israel. Fyddai hi byth eto yn gwerthu ei chorff i unrhyw ddyn; roedd hi wedi gwerthu ei henaid unwaith ac am byth i Fab Duw. Gallai gerdded â’i phen yn uchel o hyn ymlaen.

Mae hi’n gadael y tŷ yn dawel ei meddwl, yn rhydd o afael dilornus ei chyn-gwsmeriaid, yn rhydd o ddirmyg deifiol pobl hunangyfiawn fel Simon, yn rhydd i gymryd ei lle fel aelod go iawn o deulu Duw unwaith eto. Does dim tangnefedd fel tangnefedd pechodau wedi’u maddau.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlennu:

Salm 32:1–7; 103:1–5; Col. 3:12–17

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ydy profiad y salmydd o faddeuant?
2. Sut mae Paul yn cysylltu tangnefedd â maddeuant?

## Gweddi

O Dad, dw i mor ddiolchgar am dangnefedd pechodau wedi’u maddau. Mae nghalon a oedd unwaith yn corddi â theimladau o euogrwydd a chywilydd bellach yn dangnefeddus. Derbyniais faddeuant. Pob anrhydedd a gogoniant i’th enw gwerthfawr di. Amen.